Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG Cymru NHS Wales
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

NATIONAL COLLABORATING CENTRE FOR MENTAL HEALTH

# Y Fframwaith Cymwyseddau i Ymarferwyr Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru

## 1: Dogfen ategol

Rhagfyr 2023




GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru
WSSPR
Wales School for Social Prescribing Research

WcVA
CGGC

# Cynnwys


**Croeso i'r Fframwaith Cymwyseddau....................................................................1**

**1. Cyflwyniad..............................................................................................2**

Pwy yw ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol?..................................................2

Beth yw rhagnodi cymdeithasol? ......................................................................2

Manteision ac effaith rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru ...........................3

**2. Beth yw diben y Fframwaith Cymwyseddau, ac ar gyfer pwy y mae? ..........................4**

Cynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd ......................................................4

**3. Integreiddio gwybodaeth, sgiliau ac agweddau............................................5**

**4. Sut mae'r rhestrau o gymwyseddau wedi'u trefnu .......................................6**

**5. Map o'r cymwyseddau..................................................................................8**

Cynllun y rhestrau o gymwyseddau..................................................................10

**6. Cymhwyso'r Fframwaith Cymwyseddau.......................................................11**

Addasu'r Fframwaith Cymwyseddau i'r cyd-destun lleol.................................11

Hyfforddiant......................................................................................................12

Comisiynu gwasanaethau .................................................................................12

Trefniadaeth gwasanaethau – rheoli a darparu gwasanaethau ......................12

Llywodraethu ....................................................................................................12

Goruchwylio.......................................................................................................12

**7. Datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau.........................................................13**

Ymgynghori ar bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru...............................13

Pwy sydd wedi datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau?....................................13

Dull o ddatblygu fframwaith cymwyseddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth .......13

Dethol disgrifiadau o gymwyseddau ...............................................................13

Ymgynghori â rhanddeiliaid cyhoeddus...........................................................14

Adborth o'r ymgynghoriad ...............................................................................14

**8. Datblygwyr ..................................................................................................15**

**Cyfeiriadau ....................................................................................................16**

**Atodiad 1: Cwestiynau ymgynghori.................................................................17**

# Croeso i'r Fframwaith Cymwyseddau

Cymwyseddau yw'r cerrig sylfaen i ymarfer da. Maent yn helpu i siapio'r ffordd y mae pobl yn gweithio, gan roi strwythur i'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau a ddefnyddiant i wneud eu gwaith yn dda. Mae cymwyseddau yn diffinio sut mae rolau'n cael eu cyflawni hyd eithaf gallu'r unigolyn, a sut gellir grymuso pobl i wella'r sgiliau hynny a chael gwell dealltwriaeth ohonynt. Mae'r Fframwaith Cymwyseddau i Ymarferwyr Rhagnodi Cymdeithasol yn hyrwyddo ymarfer myfyriol a goruchwyliaeth, a bydd yn helpu pobl i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn creu set gyffredin o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau craidd. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i gael mwy o gysondeb rhwng sectorau a bydd yn helpu i integreiddio gwasanaethau. Ei amcan yw paratoi ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol, pwy bynnag yw eu cyflogwr ac ym mha leoliad bynnag y maent yn gweithio, i gymryd camau diogel ac effeithiol i gyfeirio dinasyddion a'u rhoi mewn cysylltiad â'r cymorth cymunedol sydd ei angen arnynt, gan eu helpu i reoli eu hiechyd a lles cymdeithasol, corfforol a meddyliol yn well.

Arbedir amser ac arian drwy gael fframwaith o sgiliau a gwybodaeth gydnabyddedig y gellir eu trosglwyddo pan fydd pobl yn symud rhwng rolau, sefydliadau neu leoliadau. Bydd llai o angen am ailadrodd hyfforddiant. Wedyn gellir canolbwyntio amser ac adnoddau ar ddiwallu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sy'n gysylltiedig â lleoliad penodol neu ddatblygu rôl benodol. Felly bydd y Fframwaith Cymwyseddau yn cynnig manteision hefyd i gyflogwyr, darparwyr addysg a chomisiynwyr. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer:

- Cynllunio a dylunio cyfleoedd dysgu priodol
- Comisiynu addysg a hyfforddiant o ansawdd da
- Dylunio gwasanaethau a datblygu sgiliau i sicrhau'r effaith fwyaf mewn cymunedau
- Asesu cymhwysedd ac ategu prosesau rheoli perfformiad.

Yn olaf, mae'r athroniaeth graidd sy'n sail i'r Fframwaith Cymwyseddau yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy fesurau cymorth ac atal. Mae'n rhoi pobl yn y canol wrth eu helpu i siapio a chael mynediad at y gwasanaethau cymorth a lles sy'n bwysig iddynt.

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau wedi'i ddatblygu i bennu galluoedd penodol a mesuradwy. Er hynny, mae'n ddigon eang i gwmpasu amrywiaeth o rolau, galwedigaethau a meysydd arbenigedd sy'n rhychwantu pob agwedd ar ragnodi cymdeithasol yng Nghymru.



**Lisa Llewellyn**
Cyfarwyddwr Gweithredol Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
Addyg a Gwella Iechyd Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)



# 1. Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn egluro'r cyd-destun i'r Fframwaith Cymwyseddau i Ymarferwyr Rhagnodi Cymdeithasol. Mae'n cynnwys gwybodaeth gefndir ynghylch datblygu rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru, y cyd-destun sefydliadol lle mae ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol yn gallu gweithredu a beth allant ei gynnig, ac ynghylch datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau hwn.**

Wrth ddatblygu'r Fframwaith Cymwyseddau a'r Ddogfen Ategol, mae tîm y prosiect wedi ceisio adlewyrchu'r amrywiaeth fawr o bersbectifau ar y rôl rhagnodi gymdeithasol yng Nghymru, a llunio fframwaith sy'n gwneud cyfiawnder â'u hyfforddiant a'u cefndir.

## Pwy yw ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol?

Mae rhagnodi cymdeithasol yn weithgarwch a gyflawnir gan bobl o dan ystod o deitlau swyddi mewn amrywiaeth o leoliadau. Y teitl mwyaf cyffredin yng Nghymru yw 'cysylltwr cymunedol', ond ymysg y teitlau eraill y mae 'ymarferydd rhagnodi cymdeithasol', 'gweithiwr cyswllt', 'llywiwr cymunedol' a 'chydgysylltydd cymunedol'. Yn ogystal â hyn, mae rhagnodi cymdeithasol yn cael ei gyflawni gan weithwyr proffesiynol o ystod o gefndiroedd fel rhan o'u rôl.

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau hwn yn canolbwyntio ar ragnodi cymdeithasol fel gweithgarwch, felly mae'n berthnasol beth bynnag yw teitl y swydd. Yn y Fframwaith Cymwyseddau, defnyddir y term 'ymarferydd rhagnodi cymdeithasol', i gyfateb i'r disgrifiad o'r rôl yn y Rhestr Termau ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol (Newstead et al., i ddod).

## Beth yw rhagnodi cymdeithasol?

Un diffiniad o ragnodi cymdeithasol gan ymchwilwyr yng Nghymru yw 'cysylltu dinasyddion â chymorth cymunedol i reoli eu hiechyd a'u lles yn well' (Rees et al., 2019). Mae'n ffordd i ddod â phobl i gysylltiad â chymorth yn y gymuned, gan helpu i'w grymuso i gydnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain, ac i ddod i gysylltiad â'u cymunedau er mwyn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a lles personol.

Drwy gysylltu pobl â'u cymunedau eu hunain, gallant gael mynediad at gymorth a fydd yn helpu i wella eu hiechyd a lles. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod pobl sydd yn unig a/neu yn profi ynysigrwydd cymdeithasol yn wynebu fwy o risg o farwolaeth gynamserol, o gael clefyd y galon, strôc a phwysedd gwaed uchel, ac yn fwy tebygol o fod yn anweithgar. Maent yn fwy tebygol hefyd o brofi iselder, lefel isel o hunan-barch, problemau o ran gwsg ac ymateb cynyddol i straen. Drwy roi pobl mewn cysylltiad â grwpiau ac adnoddau yn eu cymuned, gellir helpu i leihau neu atal nifer o'r risgiau hyn.

Mae'r prif fodel ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru yn un sy'n gyfannol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n ddull seiliedig ar berthnasoedd sy'n ceisio grymuso'r unigolyn ac sydd â nifer o gamau allweddol. Ymysg y camau hyn y mae atgyfeirio, meithrin perthynas a datblygu grym ac adnoddau'r unigolyn, gan ei helpu i wireddu ei botensial drwy ei gysylltu â'i gymuned ac felly gwella ei iechyd a lles.

Mae rhagnodi cymdeithasol yn rhan o system, felly bydd angen i nifer o sefydliadau gydweithio i sicrhau bod model clir a di-dor ar gyfer rhagnodi cymdeithasol sy'n cwrdd ag anghenion pobl ar lefel leol a chenedlaethol.

## Manteision ac effaith rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru

Mae'r cysyniad a'r ddarpariaeth o bresgripsiynu cymdeithasol yn tyfu yng Nghymru lle mae disgwyl iddo:

- gael effaith gadarnhaol ar les unigolion
- cynyddu ymgysylltu cymunedol
- helpu i sicrhau llwyth gwaith mwy cynaliadwy i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol
- lleihau anghydraddoldebau iechyd
- mynd i'r afael â heriau fel unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Mae rhagnodi cymdeithasol yn gallu gwneud hyn drwy gynnig cymorth yn y gymuned gan wasanaethau ac ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol sy'n gallu gweithio ar draws ffiniau rhwng asiantaethau a sefydliadau.



# 2. Beth yw diben y Fframwaith Cymwyseddau, ac ar gyfer pwy y mae?

**Mae fframweithiau cymwyseddau yn amlinellu'r ymddygiadau, gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gyflawni rôl swydd benodol. Maent yn ffurfio'r cysylltiad rhwng tystiolaeth ac ymarfer (a drafodir ymhellach yn yr adran 'Dull o ddatblygu fframwaith cymwyseddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth'). Gallant fod yn sylfaen i hyfforddiant ac yn agenda ar gyfer goruchwyliaeth, yn ogystal â chynnig arweiniad ar hunanfonitro a datblygiad personol i bobl sy'n cyflawni rôl benodol.**

Bydd y Fframwaith Cymwyseddau hwn yn helpu'r rheini sy'n datblygu gwasanaethau i gael gwell dealltwriaeth o rôl yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol. Bydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol ac i aelodau timau sy'n cydweithio â nhw, ac i'w rheolwyr a chomisiynwyr. Bydd o gymorth hefyd i'r rheini sy'n goruchwylio ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol, ac i'r rheini sy'n darparu addysg a hyfforddiant iddynt.

Gall y cymwyseddau fod o gymorth hefyd i bobl sy'n cyflawni gweithgareddau rhagnodi cymdeithasol yn y gymuned drwy grŵp cymheiriaid neu drwy weithredu cymdeithasol (ac sydd heb fod mewn rôl rhagnodi gymdeithasol ffurfiol), ac i bobl sy'n cynnig rhagnodi cymdeithasol yn rhan o'u rôl mewn amrywiaeth o leoliadau.

Nid yw'r Fframwaith Cymwyseddau yn orchymyn nac yn ganllaw. Mae wedi'i fwriadu i fod yn hyblyg a dylai sefydliadau lleol ei addasu yn ôl eu hamgylchiadau, eu lleoliad daearyddol a'u hadnoddau.

## Cynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn cydnabod mai'r rheini sy'n derbyn rhagnodi cymdeithasol fel arfer yw oedolion 18 mlwydd oed a hŷn. Er hynny, bydd nifer o'r cymwyseddau yn berthnasol wrth gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd, a'u rhoi mewn cysylltiad â chymorth yn eu cymunedau. Mae rhagnodi cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ar gyfer plant a phobl ifanc felly, wrth ddatblygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, bydd yn bwysig gweithredu'n gyson â Fframwaith NEST (iechyd meddwl a lles).



# 3. Integreiddio gwybodaeth, sgiliau ac agweddau

**Bydd yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol cymwys yn cyfuno gwahanol fathau o wybodaeth, sgiliau ac agweddau wrth weithio gyda phobl a'u cynorthwyo. Y cyfuniad hwn sydd yn diffinio cymhwysedd; y gallu i integreiddio'r meysydd hyn sydd yn diffinio ymarfer da.**

Mae angen gwybodaeth gefndir ar ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol a fydd yn berthnasol i'w hymarfer, ond y gallu i dynnu ar y wybodaeth hon a'i chymhwyso wrth sgwrsio â phobl a atgyfeiriwyd ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yw'r hyn sy'n diffinio cymhwysedd. Mae gwybodaeth yn eu helpu i ddeall y sail resymegol dros arfer eu sgiliau, i feddwl nid yn unig am y ffordd i'w harfer ond hefyd am y rheswm dros eu harfer.

Yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau, mae agwedd yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol at yr ymyriad a'i safbwynt arno yn bwysig hefyd – nid yn unig ei agwedd at y berthynas â'r bobl y mae'n gweithio gyda nhw ond hefyd at y timau y mae'n cydweithio â nhw, a'r nifer mawr o gyd-destunau diwylliannol lle bydd y gwaith hwn yn digwydd (yn cynnwys rhai proffesiynol, moesegol a chymdeithasol). Mae angen dal pob un o'r rhain mewn cof gan eu bod yn effeithio ar allu'r ymarferydd rhagnodi cymdeithasol i gyflawni ymyriadau sydd yn foesegol, yn cwrdd â safonau proffesiynol ac yn cael eu haddasu'n briodol yn ôl anghenion pobl a chyd-destunau diwylliannol.



# 4. Sut mae'r rhestrau o gymwyseddau wedi'u trefnu

**Mae angen i restrau o gymwyseddau fod o ddefnydd ymarferol, felly dylid eu trefnu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r arferion y maent yn eu disgrifio. Mae angen eu cynnwys mewn strwythur sydd yn ddealladwy ac yn ddilys – hynny yw, mewn ffordd y gall ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol weld ei bod yn rhoi darlun cywir o'u dull o gyflawni eu rôl.**

## Athroniaeth graidd

Ar draws pen uchaf y map (gweler 5: Map o'r cymwysedda) mae un maes cymhwysedd cyffredinol, sef maes **Athroniaeth graidd rhagnodi cymdeithasol: 'Beth sy'n bwysig i mi'**. Mae'n tynnu sylw at y ffordd o feddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ystyried beth sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n derbyn cymorth. Mae hyn yn llywio pob agwedd ar waith yr ymarferydd, ac yn gymwys felly i'r fframwaith cyfan.

Mae'r cymwyseddau hyn yn ymwneud â gweithio'n unol ag athroniaeth graidd rhagnodi cymdeithasol: datblygu perthynas â phob unigolyn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i seilio ar gryfderau a nodau er mwyn grymuso unigolion i ddod i benderfyniadau mewn meysydd sy'n ystyrlon iddynt.

## Maes 1: Ynghylch gwybodaeth

Mae'r maes cymwyseddau hwn yn nodi meysydd gwybodaeth sy'n sail i rôl yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol. Mae'n cynnwys gwybodaeth: am rôl yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol; am gyd-gynhyrchu a phenderfynu ar y cyd ag unigolion a chymunedau; am les corfforol, emosiynol a chymdeithasol; am anghydraddoldebau cymdeithasol, ariannol ac iechyd; am iechyd meddwl; ac am egwyddorion sylfaenol mesurau atal a modelau newid ymddygiad.

## Maes 2: Ynghylch materion proffesiynol a chyfreithiol

Mae'r ail faes yn ymwneud â gwybodaeth am faterion **proffesiynol a chyfreithiol**, a'r gallu i weithredu arnynt, yn cynnwys: gweithio yn ôl canllawiau moesegol; cyfrinachedd a chydsyniad; gweithio gyda gwahaniaethau; diogelu; gweithio fel rhan o dîm; a'r gallu i ddatblygu achos busnes.

Mae is-faes (**Hunanofal a chefnogaeth**) yn cynnwys cymwyseddau sy'n ymwneud â hunanofal yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol a'i allu i wneud defnydd o oruchwyliaeth.

## Maes 3: Ynghylch rhwydweithiau a phartneriaethau

Mae'r trydydd maes yn ymwneud â **sefydlu rhwydweithiau a phartneriaethau**. Mae hwn yn faes hanfodol gan na fyddai rhagnodi cymdeithasol yn bosibl hebddo.

Mae'n cynnwys: datblygu a chynnal llwybrau atgyfeirio i bresgripsiynu cymdeithasol; datblygu a chadw gwybodaeth fanwl am asedau cymunedol; cyfrannu at ddatblygu asedau cymunedol a gweithio mewn partneriaeth â nhw, er mwyn meithrin gwydnwch cymunedol.

## Meysydd 4 a 5: Ynghylch sgiliau cyfathrebu a chynlluniau gweithredu

Mae'r ddau faes nesaf wedi'u cysylltu gan symbol ar y map. Maent yn ymwneud â chydweithio ag unigolion.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â **sgiliau cyfathrebu** – defnyddio dulliau gwrando gweithredol i ddatblygu a chynnal perthynas gilyddol a chydfuddiannol.

Mae'r ail yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu cynllun gweithredu **a grymuso'r unigolyn i gymryd camau i gyflawni ei nodau**. Mae hefyd yn cynnwys y strategaethau cyfathrebu sy'n cyfrannu at hyn, ac at gydgynhyrchu cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfderau ar ddiwedd y broses.

## Maes 6: Ynghylch monitro a gwerthuso

Mae'r maes hwn yn cwmpasu dwy elfen: **monitro cynnydd yr unigolyn ac effeithiau** rhagnodi cymdeithasol**, a gwerthuso'r gwasanaeth.**

## Maes 7: Metagymwyseddau (arfer eich barn eich hun)

Y maes olaf yw metagymwyseddau ar gyfer ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol. Metagymhwysedd yw'r gallu i arfer eich barn eich hun lle bydd ymarferwyr yn addasu eu hymarfer i'w wneud yn berthnasol a phriodol i'r unigolyn y mae'n gweithio gydag ef.

Mae'r elfen 'meta' yn dangos bod y cymwyseddau hyn yn rhai lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch sut i ddefnyddio cymhwysedd penodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r metagymwyseddau yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae angen i ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol arfer eu barn fel y gallant weithio'n hyblyg ac ystyriol yn hytrach nag yn ddiymwybod. Mae'r ddwy enghraifft hyn yn dangos hyn yn gliriach:

- Bod â'r gallu i farnu beth yw'r ffordd orau i integreiddio rhagnodi cymdeithasol ag ymyriadau cyfredol neu ddichonol eraill y mae'r unigolyn yn eu cael, ac felly cymryd i ystyriaeth y gwahanol anghenion sydd ganddo
- Bod â'r gallu i farnu lle dylid cynnig cymorth i'r unigolyn neu lle dylid meithrin annibyniaeth a'r gallu i hunanreoli



## 5. Map o'r cymwyseddau


Yn y map, mae'r cymwyseddau wedi'u dangos mewn fformat gweledol hawdd ei ddeall, a'u grwpio mewn meysydd ac is-feysydd.

Mae Ffigur 1 yn fap syml neu amlinellol o feysydd y cymwyseddau ar gyfer ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol. Mae'n darparu trosolwg ar y ffordd y mae'r meysydd yn ffitio i'w gilydd ac yn disgrifio eu cynnwys, er mwyn dangos cwmpas y Fframwaith Cymwyseddau cyfan.

Ffigur 2 yw'r map llawn o feysydd ac is-feysydd y Fframwaith Cymwyseddau.

Mae'r rhestrau o gymwyseddau ar gael ar wefan AaGIC yn:
aagic.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol

Mae'r wefan yn cynnwys rhestr lawn o'r cymwyseddau mewn un ddogfen, ynghyd â fersiwn ryngweithiol o'r map. Ar y map rhyngweithiol, gallwch glicio ar bob un o'r meysydd cymwyseddau i agor y ddogfen gysylltiedig.



*Ffigur 2: Map o’r Fframwaith Cymwyseddau i Ymarferwyr Rhagnodi Cymdeithasol*

## Athroniaeth graidd rhagnodi cymdeithasol: ‘Beth sy’n bwysig i mi’

### 1. Gwybodaeth

**1.1** Gwybodaeth am ragnodi cymdeithasol a’i gymhwyso yng Nghymru

**1.2** Gweithio a gwneud penderfyniadau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

**1.2.a.** Ymagwedd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

**1.2.b.** Penderfyniadau a chyd-gynhyrchu ar y cyd

**1.2.c.** Ymagwedd sy’n seiliedig ar drawma

**1.3** Gwybodaeth am ffactorau sy’n cyfrannu at les cymdeithasol, corfforol a meddyliol

**1.4** Gwybodaeth am effaith anghydraddoldebau cymdeithasol ar iechyd

**1.5** Gwybodaeth am gyflwyniadau iechyd meddwl a chorfforol a’u heffaith ar les

**1.6** Gwybodaeth am fodelau newid ymddygiad a strategaethau i hyrwyddo hyn

### 2. Cymwyseddau Proffesiynol

**2.1** Gwybodaeth am a’r gallu i weithredu o fewn canllawiau proffesiynol, cyfreithiol a moesegol

**2.2** Gwybodaeth am faterion cyfrinachedd a chydsyniad, a’r gallu i weithio gyda nhw

**2.3** Yn gallu gweithio gyda gwahaniaethau

**2.4** Gwybodaeth am weithdrefnau diogelu

**2.5** Gallu gweithio fel rhan o dîm

**2.6** Gallu datblygu achos busnes

**2.7** Hunan-ofal a chefnogaeth

**2.7.a.** Gallu myfyrio ar waith (hunan-ofal a chymorth)

**2.7.b.** Gallu gwneud defnydd effeithiol o oruchwyliaeth a chymorth

### 3. Sefydlu rhwydweithiau a phartneriaethau

**3.1** Gallu datblygu a chynnal llwybrau atgyfeirio i ragnodi cymdeithasol

**3.2** Gallu cynnal a defnyddio gwybodaeth fanwl am asedau cymunedol

**3.3** Gallu cyfrannu at adeiladu asedau cymunedol

### 4. Sgiliau cyfathrebu*

**4.1** Yn gallu defnyddio sgiliau gwrando a chyfathrebu gweithredol

**4.2** Yn gallu datblygu a chynnal perthynas gydfuddiannol a dwyochrog

### 5. Datblygu a gweithredu ar gynllun gweithredu*

**5.1** Gallu mabwysiadu dull sy’n seiliedig ar gryfderau a gweithio mewn partneriaeth

**5.2** Strategaethau cyfathrebu i helpu i gyd-ddatblygu cynllun

**5.2.a.** Gallu defnyddio strategaethau o gyfweld ysgogol

**5.2.b.** Yn gallu cymryd dull sy’n canolbwyntio ar ddatrysiadau

**5.2.c.** Yn gallu helpu pobl i ddatblygu sgiliau ymdopi a datrys problemau

**5.3** Gallu cyd-ddatblygu cynllun gweithredu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

**5.4** Cyfeirio

**5.5** Gallu cefnogi pobl i gael mynediad at wasanaethau a sefydliadau

### 6. Monitro

**6.1** Gallu monitro’r broses atgyfeirio a nodi a goresgyn unrhyw rwystrau i ymgysylltu

**6.2** Gallu olrhain effeithiau rhagnodi cymdeithasol

### 7. Metagymwyseddau

**7.1** Meta-gymwyseddau ar gyfer ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol

* Domains 4 and 5 are linked because they both outline what social prescribing practitioers need to be able to do when working with an individual.

## Cynllun y rhestrau o gymwyseddau

O fewn pob maes, mae'r cymwyseddau wedi'u cynnwys mewn blychau fel setiau o ddatganiadau.

Ar ddechrau'r rhan fwyaf o'r datganiadau o gymhwysedd mae'r gair 'Gallu…', sy'n dangos bod y pwyslais ar allu'r ymarferydd rhagnodi cymdeithasol i gymryd cam gweithredu.

Mae rhai cymwyseddau yn ymwneud â'r wybodaeth sydd ei hangen ar ymarferydd i gymryd cam gweithredu. Yn achos y rhain, y geiriad fel arfer yw, 'Gallu tynnu ar wybodaeth…'. Dylai'r ymarferydd allu tynnu ar wybodaeth yn hytrach na meddu ar wybodaeth er ei mwyn ei hun, felly mae'r cymhwysedd yn ymwneud â defnyddio a chymhwyso'r wybodaeth honno wrth gyflawni ymyriad.

I'r graddau mwyaf posibl, mae'r disgrifiadau o gymhwysedd yn ymwneud â math penodol o ymddygiad ac yn nodi beth mae angen i'r ymarferydd ei wneud i gyflawni'r cymhwysedd.

Mae rhai o'r blychau wedi'u mewnoli lle mae sgil uwch yn cael ei gyflwyno a bod angen dangos ei elfennau. Yn yr enghraifft isod, y sgil uwch yw'r syniad o fod yn 'gydweithredol a grymusol'; mae'r ddau flwch wedi'u mewnoli sy'n dilyn yn cynnig enghreifftiau pendant o'r hyn y mae angen i'r ymarferydd ei wneud i gyflawni hyn:

- Gallu gweithio mewn modd sy'n gyson gydweithredol a grymusol, drwy:
- addasu iaith i gwrdd ag anghenion yr unigolyn
- sefydlu perthynas gilyddol, gydfuddiannol sy'n hyrwyddo'r gallu i gydgynhyrchu cynlluniau gweithredu a gosod nodau

Bydd y cymwyseddau mewn blychau wedi'u mewnoli yn fwyaf dealladwy os bydd yr ymarferydd yn cadw mewn cof y sgil uwch sydd o'u blaen. Felly, yn yr enghraifft hon, mae'r ddau flwch wedi'u mewnoli yn dangos y camau gweithredu a fydd yn effeithio ar (ac felly'n cyfrannu at) ymdeimlad y cleient o gydweithio (a chymryd rhan) mewn perthynas gydgynhyrchiol.



Yn yr is-feysydd, mae newid ffocws yn cael ei ddangos gan fwlch rhwng blychau.



# 6. Cymhwyso'r Fframwaith Cymwyseddau

## Addasu'r Fframwaith Cymwyseddau i'r cyd-destun lleol

**Cafwyd tystiolaeth glir o waith ymchwil fod gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru o ran y ffordd y mae rhagnodi cymdeithasol yn cael ei drefnu a'i ddarparu. Mae Wallace et al. (2021) wedi canfod pedair lefel mewn rhagnodi cymdeithasol:**

| | |
|---|---|
| **Cyfeirio**  | Unig weithgarwch yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol yw cyfeirio pobl at asedau cymunedol priodol a allai fod o gymorth iddynt. |
| **Ysgafn**  | Mae'r ymarferydd rhagnodi cymdeithasol yn cymryd camau i gyfeirio pobl ac yn eu hatgyfeirio i raglen neu ymyriad penodol i ddelio ag angen penodol neu geisio cyrraedd amcanion clir o fewn cyfnod penodedig. |
| **Canolig**  | Mae'r ymarferydd rhagnodi cymdeithasol yn darparu cymorth a chyfeirio mewn nifer o wahanol feysydd a all gynnwys rheoli iechyd corfforol a rheoli lles seicolegol o fewn cyfnod penodedig. |
| **Cyfannol**  | Mae'r ymarferydd rhagnodi cymdeithasol yn darparu ystod eang o ymyriadau ac yn rhoi'r unigolyn mewn cysylltiad â gwasanaethau a rhwydweithiau lleol. Nid oes terfyn ar y nifer o weithiau y mae'r unigolyn yn cael ei weld; mae hyn yn cael ei benderfynu drwy asesiad cyfannol o anghenion yr unigolyn. |

Mae Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu llwybrau sy'n canolbwyntio ar ddulliau cyfannol.

Mae gwasanaethau'n amrywio hefyd mewn perthynas â daearyddiaeth (er enghraifft, lleoliadau gwledig o gymharu â rhai trefol), y cyd-destun sefydliadol (er enghraifft, y sector gwirfoddol yn hytrach na sefydliadau iechyd ac awdurdodau lleol), ac a yw ymarferwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain neu'n rhan o dîm, a yw gwasanaethau wedi'u comisiynu neu a oes rhaid iddynt chwilio am gyllid ar gyfer swyddi.

Oherwydd y gwahaniaethau hyn, mae angen trin y Fframwaith Cymwyseddau fel un dangosol, nid un gorfodol, a'i addasu yn ôl trefniadau lleol, yr adnoddau sydd ar gael, nodau ac amcanion (er enghraifft, ni fyddai disgwyl i bob ymarferydd rhagnodi cymdeithasol gyfrannu at adeiladu asedau cymunedol, neu at ddatblygu achos busnes, y ddau'n feysydd sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Cymwyseddau).

## Hyfforddiant

Gellir defnyddio'r Fframwaith Cymwyseddau i ddatblygu cwricwla hyfforddi ar gyfer pobl o wahanol gefndiroedd sydd yn dechrau ymarfer fel ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol, er mwyn sicrhau y byddant yn gyfarwydd â'r wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu'n hyderus.

## Comisiynu gwasanaethau

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn gallu cyfrannu at y defnydd effeithiol o adnoddau, drwy alluogi comisiynwyr i bennu lefel ac ystod briodol o gymwyseddau y bydd angen i ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol eu dangos er mwyn cwrdd ag anghenion lleol. Gallai gyfrannu hefyd at ddatblygu rhagor o systemau seiliedig ar dystiolaeth i fonitro ansawdd gwasanaethau a gomisiynwyd, drwy osod fframwaith cymwyseddau i'w rannu gan gomisiynwyr a darparwyr, ac y gellid disgwyl i wasanaethau gydymffurfio ag ef.

## Trefniadaeth gwasanaethau – rheoli a darparu gwasanaethau

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn cynnwys set o gymwyseddau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth (lle bynnag y bo modd), ac mae'n ceisio disgrifio'r arferion gorau i'w dilyn gan unigolion a thimau wrth ddarparu ymyriadau.

## Llywodraethu

Mae'n hollbwysig bod ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y budd mwyaf posibl o ymyriadau.

Mae monitro ansawdd a chanlyniadau rhagnodi cymdeithasol yn weithgarwch llywodraethu allweddol; mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn galluogi darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar y lefel gymhwysedd sy'n fwyaf tebygol o ddod â buddion gwirioneddol drwy ddarparu ar gyfer asesu mwy gwrthrychol o berfformiad yr ymarferydd rhagnodi cymdeithasol.

## Goruchwylio

Mae'n ddisgwyliad rhesymol y bydd ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol yn cael eu goruchwylio gan bobl sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ym maes rhagnodi cymdeithasol ac wedi cael profiad o weithio ynddo.

Mae'r Fframwaith Cymwyseddau yn arf defnyddiol ar gyfer gwella ansawdd yr oruchwyliaeth ar staff (yn enwedig o'i ddefnyddio ar y cyd â fframwaith cymwyseddau goruchwylio University College London (UCL)). Gwneir hyn drwy seilio'r dasg o oruchwylio ar set o gymwyseddau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â darparu effeithiol.

Bydd dau nod i oruchwyliaeth fel arfer – gwella'r canlyniadau i bobl a gwella perfformiad ymarferwyr. Bydd y Fframwaith Cymwyseddau yn ategu'r ddau nod hyn drwy:
(1) darparu strwythur i helpu i ddangos yr elfennau allweddol mewn ymarfer effeithiol, a
(2) darparu ar gyfer canfod a chywiro perfformiad israddol.

Gellir cyflawni hyn drwy integreiddio'r Fframwaith Cymwyseddau mewn rhaglenni hyfforddi a'i ddefnyddio i bennu'r manylebau ar gyfer goruchwyliaeth wrth gomisiynu gwasanaethau lleol.



# 7. Datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau

## Ymgynghori ar bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru

Yn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad â rhanddeiliaid i gytuno ar fodel rhagnodi cymdeithasol i Gymru. Nod yr ymgynghoriad oedd meithrin cyd-ddealltwriaeth o'r termau a ddefnyddir i ddisgrifio rhagnodi cymdeithasol drwy Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, i ddod). Mae'r Fframwaith Cymwyseddau hwn yn elfen graidd yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol.

Cafodd y Fframwaith Cymwyseddau hwn ei gomisiynu a'i ddatblygu ochr yn ochr â'r Fframwaith Cenedlaethol, a'r Rhestr Termau ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol (Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i ddod).

## Pwy sydd wedi datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau?

Mae'r Athro Tony Roth a'r Athro Steve Pilling yn UCL wedi datblygu cyfres o fframweithiau cymwyseddau ar gyfer nifer o wahanol rolau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, y gellir eu gweld ar wefan UCL.

Yn 2022, comisiynwyd y ddau athro a'r Ganolfan Genedlaethol Cydweithredu dros Iechyd Meddwl (NCCMH) gan GIG Cymru i lunio fframwaith cymwyseddau i ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru y gellid ei ddefnyddio i 'ddiffinio arferion da a hyrwyddo cysondeb yn y ffordd o gyflawni'r rôl ledled Cymru'.

Goruchwyliwyd y gwaith ar gyfer y prosiect hwn gan grŵp llywio o gynrychiolwyr o'r holl sectorau a sefydlwyd gan GIG Cymru a chan grŵp cyfeirio arbenigol a oedd wedi'i gynnull gan NCCMH (gweler Datblygwyr am restr lawn o'r aelodau). Mae aelodau'r grŵp cyfeirio arbenigol yn arbenigwyr mewn hyfforddiant ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, yn ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol, yn ymchwilwyr, yn arbenigwyr drwy brofiad ac yn gomisiynwyr, a phob un wedi'i ddewis ar sail ei arbenigedd mewn ymchwil, hyfforddiant a darparu gwasanaethau.

Cyfeiriwyd at ddrafftiau o'r Fframwaith Cenedlaethol a'r Rhestr Termau wrth ddatblygu'r Fframwaith Cymwyseddau hwn, a chysonwyd yr iaith a'r termau â'r dogfennau hynny.

## Dull o ddatblygu fframwaith cymwyseddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Un egwyddor sylfaenol ar gyfer datblygu fframweithiau blaenorol (Roth a Pilling, 2008) oedd ymrwymo i aros mor agos â phosibl i'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd ymyriadau. Cyflawnwyd hyn drwy ganolbwyntio ar y cymwyseddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda o ymchwil neu gonsensws cryf ymysg gweithwyr arbenigol proffesiynol ynghylch eu heffeithiolrwydd tebygol.

## Dethol disgrifiadau o gymwyseddau

Dechreuir dethol disgrifiadau o gymwyseddau drwy nodi deunyddiau hyfforddi, fframweithiau cymwyseddau perthnasol a disgrifiadau o arfer proffesiynol a gyhoeddwyd. Ceir disgrifiad o'r broses ar gyfer dethol a choladu cymwyseddau yn Roth a Pilling (2008).

## Ymgynghori â rhanddeiliaid cyhoeddus

Trafodwyd drafft o'r rhestrau o gymwyseddau gan aelodau'r grŵp llywio a'r grŵp cyfeirio arbenigol. Roeddent yn destun adolygiad ailadroddol gan gymheiriaid o blith aelodau o'r grwpiau hyn, arbenigwyr allanol, a phartïon a sefydliadau allanol.

Yn Chwefror 2023, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o fis ar y Fframwaith Cymwyseddau a'r Ddogfen Ategol, a oedd wedi'i redeg gan yr NCCMH. Roedd yr ymateb i'r broses ymgynghori wedi'i seilio ar yr un a ddefnyddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE, 2014).

Roedd 22 o unigolion a sefydliadau wedi cyflwyno sylwadau i'r ymgynghoriad, gan roi adborth ar 13 o gwestiynau a luniwyd gan y grŵp cyfeirio arbenigol (gweler Atodiad 1). Nid oedd gofyniad i gofrestru, ac roedd yr adborth yn ddienw.

Mewn ymateb i'r adborth o'r ymgynghoriad (sydd wedi'i amlinellu isod), roedd tîm prosiect yr NCCMH wedi diwygio'r dogfennau a chreu trywydd archwilio a oedd yn cofnodi camau gweithredu ac ymatebion. Diwygiwyd y dogfennau ymhellach gan y grŵp llywio, ac fe'u golygwyd yn derfynol drwy ddefnyddio llyfr ymadroddion Saesneg clir Word Centre.

## Adborth o'r ymgynghoriad

Roedd nifer o ymatebwyr wedi gwneud sylw am hygyrchedd y dogfennau ac wedi nodi y byddai'n fuddiol cynnwys diffiniad o rai o'r termau a ddefnyddiwyd. Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd am y ffordd yr oedd y cymwyseddau wedi'u casglu mewn fframwaith cynhwysfawr a rhesymegol sy'n cynnwys crynodeb lefel uchel (yn y mapiau) a manylion (yn y cymwyseddau). Fe'i gwelwyd yn sail amhrisiadwy i gyfrannu at gynlluniau datblygu personol a sefydliadol. Roedd rhai ymatebwyr yn falch o weld lefel y manylder a'r strwythur eglur, gan ddweud y byddent yn cyfeirio ato er mwyn cael disgrifiad clir o'u cyfrifoldebau.

Roedd rhai ymatebwyr wedi mynegi pryder bod y dogfennau'n rhy 'academaidd' ac y byddai rhai ymarferwyr yn gallu eu cael yn anodd eu deall, fel y byddent yn llai cymwysadwy mewn rhai cyd-destunau (er enghraifft, mewn gwasanaethau gwirfoddol lle'r oedd ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol yn gweithredu fel cefnogwyr cymheiriaid). Roedd pryder hefyd y byddai pwyslais proffesiynol y fframwaith yn gallu tanseilio rhagnodi cymdeithasol dan arweiniad y gymuned.

## Meysydd i'w datblygu yn y dyfodol

Roedd yr adborth o'r ymgynghoriad hefyd wedi awgrymu datblygu'r meysydd canlynol:

- rhagor o enghreifftiau penodol o gymorth ac ymyriadau therapiwtig sy'n cael eu cyflawni gan ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol
- cymwyseddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â rhagnodi cymdeithasol (therapyddion galwedigaethol ac ati)
- ychwanegu dolenni at adnoddau ac astudiaethau achos neu enghreifftiau ymarferol o gyflawni'r cymwyseddau
- rhoi prawf ar y Fframwaith Cymwyseddau mewn lleoliadau yn y byd go iawn, i weld sut mae'r cymwyseddau yn cael eu dehongli a'u rhoi ar waith
- adolygiad rheolaidd o'r graddfeydd a systemau a ddefnyddir yn gyffredin wrth fonitro'r canlyniadau i bresgripsiynu cymdeithasol
- crynodeb byr a fersiwn hawdd ei darllen yn Gymraeg a Saesneg.



# 8. Datblygwyr

**Tom Ayers**, Cyfarwyddwr, NCCMH

**Chris Bristow**, Uwch-reolwr Polisi, Llywodraeth Cymru

**Johanna Davies**, Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**Mark Davies**, Athro Cyswllt a Phennaeth Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr, Prifysgol De Cymru; Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (Canolfan PRIME Cymru), Caerdydd

**Nuala Ernest**, Uwch Olygydd, NCCMH

**Nicola Evans**, Pennaeth Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach, Llywodraeth Cymru

**Rebecca Evans**, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Eva Gautam-Aiken**, Uwch Reolwr Prosiect, NCCMH

**Krysia Groves**, Rheolwr Rhaglenni Gweithlu, Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**Dr Daniel Hayes**, Uwch Gymrawd Ymchwil, Adran Ymchwil Iechyd a Gwyddorau Ymddygiadol, Athrofa Epidemioleg a Gofal Iechyd, UCL

**Bethan Jenkins**, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Amrita Jesurasa**, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Fern Jones**, Myfyriwr PhD Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Prifysgol De Cymru

**Mary-Ann McKibben**, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd y Cyhoedd

**Charlette Middlemiss**, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Trawsnewid y Gweithlu, Addysg a Gwella Iechyd Cymru

**Annie Petherick**, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Yr Athro Steve Pilling**, Cyfarwyddwr Academaidd a Strategol NCCMH; Athro Seicoleg Glinigol ac Effeithiolrwydd Clinigol, Seicoleg Glinigol, Addysg ac Iechyd, UCL

**Yr Athro Anthony Roth**, Athro Emeritws Seicoleg Glinigol, UCL

**Clair Swales** (tan Hydref 2022), Pennaeth Iechyd a Lles, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**Yr Athro Carolyn Wallace**, Athro Iechyd Cymunedol a Gwasanaethau Gofal, Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg, Prifysgol De Cymru; Canolfan PRIME Cymru, Caerdydd; Cyfarwyddwr, Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru

# Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru. Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol. Drafft ar gyfer ymgynghori. Rhif: WG44988. (i ddod). Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datblygu-fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-rhagnodi-cymdeithasol

Llywodraeth Cymru. Fframwaith NEST (iechyd meddwl a lles): Canllawiau ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl a lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; 2023. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/fframwaith-nest-iechyd-meddwl-lles

Newstead S, Pringle A, Jenkins B, Jesurasa A, Wallace C. Developing an Evidence-based Glossary of Terms for Social Prescribing. Draft v16. Public Health Wales, Wales School for Social Prescribing Research, University of South Wales. (i ddod).

National Institute for Health and Care Excellence. Developing NICE guidelines: the manual. London: NICE; 2014 (diweddarwyd 2022). Ar gael yn: www.nice.org.uk/process/pmg20/resources/developing-nice-guidelines-the-manual-pdf-72286708700869

Rees S, Thomas S, Elliott M, Wallace C. Creating community assets/social capital within the context of social prescribing. Findings from the workshop held 17/7/2019. WCVA, Cwm Taf Morgannwg University Health Board, University of South Wales. 2019.

Roth AD a Pilling S. A competence framework for the supervision of psychological therapies. UCL, Care Services Improvement Partnership, Skills for Health, NHS Education for Scotland; 2008 (diwygiwyd 2015). Ar gael yn: www.ucl.ac.uk/pals/research/clinical-educational-and-health-psychology/research-groups/core/competence-frameworks-8

Wallace C, Davies M, Elliott M, Llewellyn M, Randall H, Owens J, et al. Understanding social prescribing in Wales: a mixed methods study. A final report. Wales School for Social Prescribing Research, Public Health Wales; 2021. Ar gael yn: www.wsspr.wales/resources/PHW_SP_Report_FINAL.pdf

# Atodiad 1: Cwestiynau ymgynghori

## Y Fframwaith Cymwyseddau i Ymarferwyr Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru: Ymgynghoriad

Rydym yn ymgynghori ar y Fframwaith Cymwyseddau i Ymarferwyr Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru tan ddydd Gwener 24 Mawrth. Rydym yn ymddiddori ym marn rhanddeiliaid a byddwn yn croesawu adborth gennych chi, a fydd yn hanfodol i ni wrth sicrhau bod y fframwaith hwn yn addas i'ch dibenion.

## Disgrifiad o'r ymgynghoriad

Cymwyseddau yw'r cerrig sylfaen i ymarfer da. Mae'r Fframwaith Cymwyseddau hwn yn ceisio creu set gyffredin o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau craidd ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan mewn rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru – yn ymarferwyr, cyfranogwyr, addysgwyr, comisiynwyr ac eraill.

Yr athroniaeth graidd sy'n gefn i'r fframwaith hwn yw gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer darparu gwasanaethau lles sy'n cyfrif. Rydym am ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o ymarfer rhagnodi cymdeithasol a fydd:

- yn arwain ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol at y sgiliau a gwybodaeth a fydd o'r cymorth mwyaf iddynt yn eu rôl ac yn helpu i siapio eu ffordd o weithio.
- yn darparu strwythur ar gyfer cynllunio, dylunio gwasanaethau, comisiynu a datblygu addysg.
- yn creu cysondeb rhwng sectorau ac yn helpu i integreiddio gwasanaethau.

Gofynnir i chi ddarllen y dogfennau drafft a rhoi adborth mewn ymateb i'r 12 cwestiwn isod. Gallwch ychwanegu ymatebion i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yn y blychau Testun Rhydd.

Rydym yn gofyn i chi ddarparu adborth sydd mor benodol â phosibl am unrhyw newidiadau a fyddai'n gwella'r dogfennau yn eich barn chi (e.e. rhif y dudalen a'r union eiriau yn y ddogfen, ynghyd â'ch awgrym chi o eiriau).

## Dogfennau cymwyseddau

Gellir lawrlwytho fersiynau drafft o'r fframwaith cymwyseddau a'r ddogfen ategol o: [aagic.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol](aagic.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol)

**1. A ydych yn cymryd rhan mewn rhagnodi cymdeithasol fel:**

- Atgyfeirydd
- Ymarferydd rhagnodi cymdeithasol
- Comisiynydd
- Cyfranogwr
- Darparwr ased cymunedol
- Addysgwr
- Arall:

**2. Ym mha ranbarth yng Nghymru rydych yn gweithio?**

- Gogledd
- Canolbarth
- De
- Arall:

**3. Pa argraff gyffredinol rydych yn ei chael o'r fframwaith hwn?**

**4. Ar raddfa rhwng 1 a 10, pa mor ddefnyddiol yw'r fframwaith hwn? (graddfa rhwng 1 a 10 lle mae 10 yn 'ddefnyddiol iawn')**
**5. Eglurwch pam rydych wedi rhoi'r sgôr hon.**

**6. Pa mor hawdd ei deall yw'r iaith a ddefnyddiwyd yn y dogfennau Cymraeg/Saesneg?**

**7. Beth yw'ch barn am yr iaith a ddefnyddiwyd yn nogfennau'r canllawiau a'r fframwaith? Os ydych yn credu nad yw'n briodol, dywedwch pam ac awgrymwch sut y gellir ei gwella.**

**8. Beth mae'n ei olygu i chi fod y fframwaith hwn ar gael yn Gymraeg?**

**9. A yw'r fframwaith yn rhoi disgrifiad digonol o'r gofynion am wybodaeth a sgiliau i ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol?**

**10. A ydych yn credu ei fod yn arf da i'ch cynorthwyo yn eich rôl fel ymarferydd rhagnodi cymdeithasol?**

- Sut rydych yn credu y byddwch yn ei ddefnyddio?
- A yw'r cymwyseddau wedi'u targedu ar y lefel briodol i adlewyrchu ymarfer go iawn?
- A oes unrhyw beth ar goll y dylid ei gynnwys yn y cymwyseddau?

**11. A ydych yn credu y dylid rhoi credyd academaidd am gyflawni cymwyseddau?**

**12. A fyddech yn croesawu rhaglen hyfforddi genedlaethol i Gymru wedi'i seilio ar y fframwaith cymwyseddau i ymarferwyr rhagnodi cymdeithasol?**

**13. Unrhyw sylwadau eraill?**